# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 20 Mai 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51759)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Rwyf yn ymateb i'r cwestiynau uchod ar ran pob un o'r Gweinidogion. Ers cyhoeddi Cod diwygiedig y Gweinidogion ym mis Mehefin 2007 ni chofnodir lletygarwch a dderbynnir gan Weinidogion yn ganolog o fewn Llywodraeth y Cynulliad, ond yn unol â pharagraff 5.26 o'r Cod.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog restru holl fanylion yr ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51761)

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn ymateb i'r cwestiynau uchod ar ran pob un o'r Gweinidogion. Dangosir y wybodaeth yn y tabl canlynol.

**Ymweliadau Tramor - Gorffennaf 2007 - Mai 2008**

| **Gweinidog** | **Y Cyrchfan** | **Gadael** | **Adenillion** | **Rheswm dros yr Ymweliad** | **Amcangyfrif o'r Gost (gan gynnwys swyddogion hebryngol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Weinidog** | Brwsel | 27 Medi 2007 | 28 Medi 2007 | Fforwm Cydlyniant yr UE | £1,263 |
| | Iwerddon | 13 Chwefror 2008 | 14 Chwefror 2008 | Cyfarfod Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig | £350 |
| | Brwsel | 25 Chwefror 2008 | 26 Chwefror 2008 | Dathliad Dydd Gŵyl Dewi Brwsel | £896 |
| | Tsieina | 06 Mawrth 2008 | 09 Mawrth 2008 | Ymweliad Gweinidogol | £7,104 |
| **is-gyfanswm** | | | | | **£9,613** |
| **Edwina Hart** | Brwsel | 12 Gorffennaf 2007 | 13 Gorffennaf 2007 | Dathlu 90 mlynedd ers Brwydr Paschendaele | £630 |
| **is-gyfanswm** | | | | | **£630** |
| **Andrew Davies** | Barcelona - Sbaen | 14 Tachwedd 2007 | 16 Tachwedd 2007 | Cynhadledd REGLEG | £1,096 |
| | Iwerddon | 08 Mawrth 2008 | 09 Mawrth 2008 | Gêm Rygbi Cymru yn erbyn Iwerddon - gwestai Noel Dempsey, Gweinidog dros Drafnidiaeth | £295 |
| **is-gyfanswm** | | | | | **£1,391** |
| **Jane Davidson** | Brwsel | 19 Rhagfyr 2007 | 20 Rhagfyr 2007 | Cyfarfod Cyngor yr UE | £1,800 |
| | Monaco | 21 Chwefror 2008 | 21 Chwefror 2008 | Cyflwyniad i NRG4SD Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy | £598 |
| | Brwsel | 02 Mawrth 2008 | 03 Mawrth 2008 | Cyfarfod Cyngor yr UE | £1,740 |
| **is-gyfanswm** | | | | | **£4,138** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Jane Hutt** | Brwsel | 26 Mawrth 2008 | 27 Mawrth 2008 | Mynd i gyfarfod EARALL | £1,708 |
| **is-gyfanswm** | | | | | **£1,708** |

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51722) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn ymateb i'r cwestiynau uchod ar ran pob un o'r Gweinidogion. Ers cyhoeddi Cod diwygiedig y Gweinidogion ym mis Mehefin 2007 ni chofnodir lletygarwch a dderbynnir gan Weinidogion yn ganolog o fewn Llywodraeth y Cynulliad, ond yn unol â pharagraff 5.26 o'r Cod.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru holl fanylion yr ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51723) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn ymateb i'r cwestiynau uchod ar ran pob un o'r Gweinidogion. Dangosir y wybodaeth yn y tabl canlynol.

**Ymweliadau Tramor - Gorffennaf 2007 - Mai 2008**

| **Gweinidog** | **Y Cyrchfan** | **Gadael** | **Dychwelyd** | **Rheswm dros yr Ymweliad** | **Amcangyfrif o'r Gost (gan gynnwys swyddogion hebryngol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dirprwy Brif Weinidog Cymru | Brwsel | 11 Gorffennaf 2007 | 13 Gorffennaf 2007 | Dathlu 90 mlynedd ers Brwydr Paschendaele | £1,158 |
| | Brwsel | 27 Medi 2007 | 28 Medi 2007 | Fforwm Cydlyniant yr UE | £1,263 |
| | India | 24 Tachwedd 2007 | 01 Rhagfyr 2007 | Cenhadaeth Fasnach | £14,530 |
| | Iwerddon | 13 Chwefror 2008 | 14 Chwefror 2008 | Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig | £171 |
| | Efrog Newydd a Boston | 25 Chwefror 2008 | 02 Mawrth 2008 | Cynnwys Gweinidogion yn Wythnos Cymru | £19,425 |
| is-gyfanswm | | | | | £36,547 |
| Rhodri Glyn Thomas | Barcelona - Sbaen | 22 Tachwedd 2007 | 23 Tachwedd 2007 | Cynhadledd Twristiaeth Ddiwylliannol | £444 |
| | Brwsel | 14 Chwefror 2008 | 15 Chwefror 2008 | Cynhadledd Amlieithrwydd | £890 |
| is-gyfanswm | | | | | £1,334 |
| Elin Jones | Brwsel | 25 Tachwedd 2007 | 26 Tachwedd 2007 | Ymweliad y Cyngor Amaeth | £872 |
| | Dubai | 23 Chwefror 2008 | 24 Chwefror 2008 | Arddangosfa Sioe Gulfood | £5,910 |
| is-gyfanswm | | | | | £6,782 |
| Brian Gibbons | Dulyn - Iwerddon | 13 Chwefror 2008 | 15 Chwefror 2008 | Cyfarfod Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig | £425 |
| is-gyfanswm | | | | | £425 |

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch codiadau mewn chwyddiant yng Nghymru? (WAQ51782)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Banc Lloegr annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau y cyflawnir y targed chwyddiant, a bennir gan Lywodraeth y DU.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o gaeau chwarae ysgolion sydd wedi cael eu gwerthu gan awdurdodau lleol ar gyfer eu datblygu yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ51741)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Ni chaiff y wybodaeth hon ei chasglu yn ganolog. Ymgynghorir â Chyngor Chwaraeon Cymru ynglŷn ag unrhyw gais cynllunio i werthu meysydd chwarae ysgolion.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51742) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51759.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51743) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51761.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Faint o ddisgyblion a oedd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol a dros dro yn ystod pob un o'r 5 mlynedd diwethaf gan awdurdod lleol ar sail ymddygiad? (WAQ51778)

**Jane Hutt:** Nodir y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y tabl yn y ffeil cysylltiedig. Cesglir data ar nifer y cyfnodau o wahardd yn unig, a chaiff disgybl a gaiff ei wahardd fwy nag unwaith mewn blwyddyn ei gyfrif fwy nag unwaith. Mae'r ffigurau'n cynnwys pob achos o wahardd oherwydd tybir ei fod wedi digwydd oherwydd ymddygiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51763) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51759.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru holl fanylion yr ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51764) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51761.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51756) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51759.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru holl fanylion yr ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51757) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51761.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007, ac amcan o gost pob un? (WAQ51749) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51759.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru holl fanylion yr ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51750) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51761.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd fydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Agenda ar gyfer Newid yn darparu ei adroddiadau rhagarweiniol a therfynol? (WAQ51777)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Fel y byddwch yn ymwybodol, gofynnais i Is-grŵp Fforwm Partneriaeth yr Agenda ar gyfer Newid (A4C PFSG) ddatblygu argymhellion adroddiad David Jenkins.

Cyfarfu'r grŵp gyfarfod ar 13eg Mawrth 2008 am y tro cyntaf ers i mi dderbyn Adroddiad David Jenkins yn ffurfiol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, sefydlodd A4C PFSG ddau weithgor i ddatblygu cynigion ar gyfer gweithredu argymhellion yr adroddiad, gyda'r nod o ddod i gasgliad ar gynigion i'w gweithredu erbyn diwedd Mehefin 2008, gan gynnwys amserlen y cytunwyd arni ar gyfer gweithredu'r argymhellion yng Nghymru.

Mae'r gweithgorau yn ystyried yr argymhellion canlynol:
1. Sefydlu Uned Gwerthuso Swyddi GIG Cymru a datblygu dull Cymru Gyfan ar gyfer ymdrin ag apeliadau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwerthuso swyddi.
2. Datblygu protocolau er mwyn cyflawni'r argymhellion sy'n ymwneud â diogelu cyflogau ac amrywio'r dyddiadau ychwanegol mewn perthynas â throsneidio.

Mae'r ddau weithgor wedi datblygu cynigion cychwynnol ar gyfer gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad a nodwyd y cynnydd yng nghyfarfod A4C PFSG ar 15fed Mai 2008. Trafodwyd y rhain gyda'r bwriad o gytuno ar yr argymhellion terfynol o ganlyniad i gyfarfod A4C PFSG ar 12fed Mehefin 2008.

Trafodir holl argymhellion adolygiad David Jenkins gyda Chyngor Staff y GIG a gofynnir i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adolygu unrhyw gynigion o safbwynt cydraddoldeb.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog gyfarfod â rheolwyr Canolfan Mileniwm Cymru, a beth oedd y canlyniad? (WAQ51701)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Cyfarfûm â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Canolfan Mileniwm Cymru ddiwethaf ddydd Llun 14 Ebrill er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y Ganolfan, cynlluniau'r Ganolfan ar gyfer 2008, a'r materion yn codi ohonynt. Cytunwyd y byddai fy swyddogion i a swyddogion y Ganolfan yn ystyried nifer o'r materion a drafodwyd ymhellach.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru holl fanylion yr ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007, ac amcan o gost pob un? (WAQ51714) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51723.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51720) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51722.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion yr incwm fferm cyfartalog yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ51697)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Dyma'r wybodaeth fel a ganlyn

**Incwm Fferm Net Cyfartalog yng Nghymru 1999/2000 – 2007/08 (prisiau cyfredol)**

| | 1999/ 2000 | 2000/ 01 | 2001/ 02 | 2002/ 03 | 2003/ 04 | 2004/ 05 | 2005/ 06 | 2006/ 07 (d) | 2007/ 08 (rh) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| IFfN Cyfartalog (£) | 5,700 | 5,600 | 9,100 | 13,800 | 15,300 | 14,200 | 12,200 | 12,100 | 11,800 |

Ffynhonnell: Arolwg Busnes Fferm (d = dros dro, rh = rhagolwg)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru holl fanylion yr ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51713) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51723.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51719) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51722.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl hectar o dir coedwigaeth sydd wedi cael ei blannu yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ51753)

**Elin Jones:** Mae'r ffigurau canlynol yn cyfeirio at dir Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unig a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

1 Ebrill - 31 Mawrth

| | |
|---|---|
| 1999-2000 | 1795 hectar |
| 2000-2001 | 1433 hectar |
| 2001-2002 | 1132 hectar |
| 2002-2003 | 1184 hectar |
| 2003-2004 | 1395 hectar |
| 2004-2005 | 1342 hectar |
| 2005-2006 | 1674 hectar |
| 2006-2007 | 1672 hectar |
| 2007-2008 | ffigurau ar gael o 25 Medi 2008 |

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl hectar o dir coedwigaeth sydd wedi cael ei dorri i lawr yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ51754)

**Elin Jones:** Mae'r ffigurau canlynol yn cyfeirio at dir Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unig a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

1 Ebrill - 31 Mawrth (clirgwympo)

| | |
|---|---|
| 1999-2000 | 2723 hectar |
| 2000-2001 | 2423 hectar |
| 2001-2002 | 2630 hectar |
| 2002-2003 | 3097 hectar |
| 2003-2004 | 2913 hectar |
| 2004-2005 | 2179 hectar |
| 2005-2006 | 1835 hectar |
| 2006-2007 | 1863 hectar |
| 2007-2008 | 1647 hectar |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno'r system Un Bleidlais Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru? (WAQ51712)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Fel y byddwch yn ymwybodol, mae Peter Black wedi cyflwyno cynnig ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol o ran 'Y trefniadau ar gyfer system ethol aelodau o awdurdodau lleol a'r system etholiadol y cânt eu hethol drwyddi'.

Bydd y ddadl hon sydd ar droed yn rhoi cyfle i bob aelod fynegi ei farn.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru holl fanylion yr ymweliadau tramor a gafodd er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51715) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51723.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru manylion yr holl letygarwch corfforaethol y mae wedi'i dderbyn er mis Gorffennaf 2007 ac amcan o gost pob un? (WAQ51721) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb i WAQ51722.